**Jeremy Miles AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**
**Counsel General and Brexit Minister**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/CG/1434/19

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

David.Rees@cynulliad.cymru
SeneddEAAL@cynulliad.cymru

23 Ebrill 2019

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr wedi i mi fod yn bresennol yng nghyfarfod eich Pwyllgor yn ddiweddar.

Yn eich llythyr, rydych yn tynnu sylw at yr effaith niweidiol bosibl y byddai ymadael â'r UE heb gytundeb yn ei chael ar economi Cymru. Fel y gwyddoch, rydym wedi dweud yn glir ers y dechrau y byddai canlyniad "heb gytundeb" yn drychinebus i'r DU gyfan, ond yn arbennig i Gymru, ac rwyf wedi pwysleisio hyn dro ar ôl tro wrth Lywodraeth y DU. Rwy'n falch o weld ei bod, gobeithio, wedi derbyn o'r diwedd nad yw hyn yn opsiwn ymarferol, ac yn falch hefyd bod yr UE wedi cytuno ar estyniad hirach. Ond, mae Brexit 'heb gytundeb' yn parhau i fod yn risg gwirioneddol ac fel Llywodraeth gyfrifol, byddwn yn parhau i gynllunio ar gyfer y canlyniad hwn. Bydd yr estyniad yn rhoi amser i Lywodraeth y DU fynd ati o ddifri i estyn allan a cheisio consensws, rhywbeth y mae wir ei angen ar y wlad. Mae'n hanfodol i ni ddod o hyd i ateb ac osgoi gweld ymyl dibyn arall ddiwedd mis Hydref.

Rwyf hefyd yn croesawu adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n cydnabod maint yr her sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus wrth iddynt baratoi ar gyfer Brexit, mewn hinsawdd heriol ac ansicr iawn. Mae'r adroddiad yn cydnabod ein bod wedi ymateb i'r her ac mae'n cyfeirio at y ffaith ein bod yn arwain wrth gynllunio ar gyfer Brexit heb gytundeb. Rydym wedi parhau i ddangos arweiniad, ac yn ddiweddar, drwy Academi Cymru, rydym wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau ym mhob rhan o Gymru ar gyfer cynghorwyr a chyfarwyddwyr anweithredol â rôl graffu, sydd wedi cael ymateb da.

Yn eich llythyr, gofynnoch am ragor o wybodaeth ynglŷn â nifer o bwyntiau a godwyd yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Awdurdodau Lleol**

Yn eich llythyr, gofynnoch sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â materion capasiti o ran gallu Awdurdodau Lleol Cymru i baratoi ar gyfer Brexit ar ben eu gwaith o ddydd i ddydd.

Rydym wedi rhoi strwythurau ar waith i feithrin cysylltiadau ag awdurdodau lleol a chyfathrebu â nhw. Mae Panel Ymgynghori Parodrwydd (UE) Llywodraeth Leol yn cyfarfod bob tair wythnos. Mae'r Panel, sy'n cynnwys Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, yn fforwm ar gyfer asesu cynnydd y paratoadau, ac yn cryfhau dull cydweithredol a chyson o weithio ar draws Cymru i sicrhau'r atebion gorau i ddinasyddion Cymru ar ôl Brexit. Mae aelodau'r Panel wedi rhoi gwybod, er bod lefelau y paratoadau yn amrywio, eu bod wedi cynyddu yn helaeth dros y misoedd diwethaf, yn enwedig y paratoadau ar gyfer ymadael heb gytundeb.

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol £1.2 miliwn i gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt baratoi ar gyfer Brexit. Bydd £1m o'r cyllid hwnnw yn mynd yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol i gyflogi aelod staff penodedig ychwanegol i weithio ar faterion Brexit yn unig. Defnyddir £200,000 i gefnogi Awdurdodau Lleol drwy ymestyn rhaglen bontio UE Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), sy'n darparu asesiadau, ymchwil ac adnoddau sydd o fudd i bob Awdurdod Lleol.

Fel rhan o'r Rhaglen, mae CLlLC wedi comisiynu Grant Thornton i gynnal dadansoddiad o baratoadau awdurdodau lleol yng Nghymru. Gellir gweld yr adroddiad yma https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2230. Ond, yn gryno, daw'r adroddiad i'r casgliad:

- Bod lefel dda o sicrwydd o ran y paratoadau, yn sicr yn y tymor byr, ac o ran y strwythurau a'r gwaith cynllunio sydd ar waith.
- Mae paratoadau ar gyfer Brexit wedi datblygu yn helaeth yn y cyfnod byr ers cyhoeddi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru dri mis yn ôl.
- Mae pecyn Rhaglen Bontio'r UE wedi bod yn adnodd gwerthfawr sydd wedi'i ddefnyddio yn helaeth, gan roi strwythur, hyder a chysondeb.
- Ond mae'r adroddiad yn rhybuddio, er bod awdurdodau wedi paratoi yn dda iawn, yn amlwg oherwydd yr ansicrwydd parhaus, nid yw'r cynlluniau wedi'u profi.

**Argyfyngau Sifil**

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl arweiniol bwysig o ran argyfyngau sifil yng Nghymru, ac mae wedi gweithio dros sawl mis gyda Llywodraeth y DU a Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ar fesurau ataliol ar gyfer y posibilrwydd o weld Brexit heb gytundeb.

Yn eich llythyr, gofynnoch am ragor o fanylion am y £500,000 ychwanegol a gyhoeddwyd i gefnogi gwaith y Fforymau. Yn bennaf, cafodd y cyllid ei neilltuo i gynorthwyo'r Fforymau i fonitro effaith Brexit heb gytundeb yn y gwahanol asiantaethau yn ddyddiol a 24 awr y dydd fel sy'n ofynnol drwy weithredu strwythurau Gorchymyn, Rheoli a Chydlynu. Er y bydd y cyllid yn galluogi'r Fforymau i ddiwallu anghenion lleol penodol, gall hefyd eu cynorthwyo, fel sy'n briodol, i wneud y canlynol:

- Creu canolfannau paratoadau Brexit yn ardal y Fforymau.
- Cefnogi'r Fforymau i wella eu trefniadau presennol a datblygu gweithdrefnau a chynlluniau newydd ar gyfer yr ymateb i ymadael â'r UE, gan gynnwys profi trefniadau.

- Darparu TGCh cadarn i gefnogi cyfathrebu rhwng y Fforymau a strwythurau rheoli argyfyngau canolog.
- Rhoi hyfforddiant angenrheidiol i staff a sefydliadau sy'n gweithio yn y Fforymau.
- Rhoi cefnogaeth ehangach i'r Fforymau ar weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â Brexit, ac sydd wedi'u gwthio o'r neilltu gan gynlluniau ar gyfer Brexit heb gytundeb, i fod yn barod am ddigwyddiadau eraill a allai ddigwydd yr un pryd.

**Cyfathrebu**

Yn eich llythyr, gofynnoch hefyd am ragor o wybodaeth am y Porth Brexit 'Paratoi Cymru'.

Mae'r wefan yn rhoi canllawiau a chyngor i ddinasyddion, sefydliadau ac amryw o sectorau yng Nghymru ynglŷn â pha gamau sydd angen eu cymryd i baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb. Yn ogystal â rhoi cyngor gan Lywodraeth Cymru, mae'n cyfeirio pobl a sefydliadau at gyngor perthnasol gan gyrff allanol ynglŷn â sut i baratoi, gan gynnwys canllawiau gan Lywodraeth y DU os yw'n briodol.

Mae Paratoi Cymru yn cael ei hyrwyddo drwy amryw o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys meithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid, datganiadau i'r wasg, ffrydiau twitter a chyfweliadau Gweinidogol â'r cyfryngau. Hefyd, bydd pob aelwyd yng Nghymru yn cael taflen yn hyrwyddo Paratoi Cymru a gwybodaeth ynglŷn â lle i gael y cyngor diweddaraf. Os nad ydynt wedi'i gael eisoes, bydd yn cyrraedd yn fuan. Ers lansio 'Paratoi Cymru' ar 16 Ionawr, ymwelwyd â'r tudalennau gwe unigol 26,839 gwaith.

Yn ogystal â gwefan 'Paratoi Cymru', rydym hefyd wedi creu porth Brexit Busnes Cymru i helpu busnesau Cymru i baratoi ar gyfer Brexit ac ymgyfarwyddo â'r newidiadau a'r heriau sydd i ddod. Mae'r Porth yn rhoi gwybodaeth a chyngor cyfredol ar ystod o faterion hanfodol ar gyfer busnes. Mae hefyd yn cynnwys pecyn cymorth diagnostig sy'n helpu busnesau i ganfod pa mor barod ydyn nhw ar gyfer Brexit, yn argymell camau i'w cymryd i wella eu cadernid ac yn eu cyfeirio at ffynonellau cefnogaeth ychwanegol.

Ers ei lansio ym mis Medi 2018 mae busnesau wedi ymweld â'r porth 30,662 gwaith, gyda tua 65% o fusnesau Cymru wedi defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym wedi cynnal amryw o weithgareddau i hyrwyddo porth Brexit Busnes Cymru gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (Busnes Cymru a GwerthwchiGymru), anfon deunydd drwy'r post at danysgrifwyr newyddlenni Busnes Cymru a'i hyrwyddo ar brif wefan Busnes Cymru. Cynhaliwyd ymgyrch farchnata allanol ar Brexit hefyd gan gynnwys hysbysebion ar y teledu, hysbysebion ar y radio a hysbysebion eraill ar-lein.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod y gwaith y mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi'i wneud i baratoi ar gyfer yr hyn sydd, fel yr ydych wedi'i nodi yn eich llythyr, yn broses na welwyd ei thebyg o'r blaen.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AM**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister